

COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL
7.30 yh nos Fawrth Tachwedd 30ain 2021

Presennol :- Cynghorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Selwyn Griffiths , Ian Wyn Jones, Gwilym Jones,Aled Griffith

Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cynghorwyr:- Dr Simon Brooks, Jason Humphreys

1. Ymddiheuriadau :- Cyng Nia Jeffreys

2. Archwilio'r cyfrifon. (Mantolen hyd at Tachwedd 23 ynghlwm).

Adroddwyd fod sefyllfa ariannol y Cyngor Tref yn dderbyniol. Mae gwariant mwyaf y Cyngor Tref i ddod sef costau Nadolig a cheisiadau ariannol blynyddol.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio

3. Dechrau trafodaeth am braesept 2022/2023.

Derbyniwyd y wybodaeth yn y Gyllideb, Cynllun Datblygu a Thabl Praesept ynghlwm.

Penderfynwyd:- rhoi cynnig Cyng Ian Wyn Jones i gadw'r Praesept yr un fath â'r ylynedd gerbron y Pwyllgor Llawn ym mis Rhagfyr. Eilwyd y cynnig gan y Cyng Gwilym Jones.

4. Penodi Archwiliwr Mewnol ar gyfer 2021-2022.

Mynegodd y Clerc iddi fod yn fodlon iawn efo gwasanaeth Bleddyn Rhys o Adran Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn archwiliad 2020-2021.

Penderfynwyd :- gofyn i Bleddyn Rhys ymgymryd â'r gwaith ar gyfer archwiliad 2021-2022 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Jones yn eilio.

5. Trafod gosod plac efydd ar fainc goffa Glenda Burke

Cytunwyd ar yr angen i gofnodi mai rhodd gan Gyngor Tref Porthmadog yw'r fainc er cof am Glenda Burke ac i fynegi gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth i'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn trefnu gyda gemydd lleol i ysgythru plac efydd ac yn ymgynghori gyda'r Cadeirydd am yr union eiriad ar y plac, yn ôl cynnig Cyng Ian Wyn Jones.

6. Biliau i'w talu - gwariant disgwylidig:

Awdurdodwyd y taliadau canlynol :-

1	R.J.ELECTRICS	Gosod goleuadau Nadolig 2021	£ 4,536.00
2	ARENA GROUP	Llungopïo	£ 31.80

7. Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais .: C21/1067/44/AC (wedi ebostio 10.11.21)

Lleoliad: Red Lion, 13 - 15 Heol Newydd, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9ED

Bwriad : Diwygio amodau 5 a 6 ar ganiatad cynllunio C20/0076/44/LL i ymestyn y cyfnod y caiff y cytiau pren fod yn agored i gwsmeriaid ac i ymestyn y cyfnod y caiff yr agoriad gweini fod yn agored.

PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD

(b) Rhif Cais C21/1079/44/LL (wedi ebostio 15.11.21)

Lleoliad : Greenacres Holiday Park Black Rock Sands, Morfa Bychan, Gwynedd, LL49 9YF
Bwriad : Codi sied bren / Cwt Ceidwad

PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD

(c) Rhif Cais .: C21/1101/44/LL (wedi ebostio 19.11.21)

Lleoliad: Ty Moelwyn, Porthmadog, LL49 9AB
Bwriad: Gosod 7 golau adeilad LED sy'n wynebu fyny gyda effaith golchiad
(wash effect building uplighters)

PENDERFYNIAD :- GWRTHWYNEBU am y rhesymau canlynol :-

- Golau di-angen
- Dim yn amgylcheddol gyfeillgar
- Angen diogelu statws awyr dywyll Eryri
- Amharu ar drigolion tai cyfagos

(ch) Rhif Cais C21/1108/44/DT (wedi ebostio 22.11.21)

Lleoliad: Tŷ Clyd Heol Merswy, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UF
Bwriad : Amnewid cladin pren, ail doi gyda to fflat, adeiladu estyniad ac amnewid wal ffin

PENDERFYNIAD :- DIM GWRTHWYNEBIAD

Daeth y cyfarfod i ben am 20.00

Marian Roberts
1.12.21